

## Y frech goch – y diweddaraf


[View this post in English](#) | [Darllenwch yr erthygl yma yn Saesneg](#)

16/08/17

Rhwng mis Tachwedd 2012 a Gorffennaf 2013 cafwyd y nifer mwyaf o achosion o'r frech goch yng Nghymru ers cyflwyno'r brechlyn MMR. Mae'r frech goch wedi bod yn y newyddion eto yn yr wythnosau diwethaf, yn rhannol o ganlyniad i [achosion o'r haint yn ardaloedd Casnewydd a Thorfaen](#). Mae hefyd wedi bod nifer o achosion ledled Ewrop [eleni](#). Yn eu [cynllun strategol byd-eang ar y frech goch a rwbel 2012-2020](#), gosododd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) nod o gael gwared ar y frech goch erbyn diwedd 2020. Er mwyn cyflawni hyn, bydd gofyn cynyddu'r nifer sy'n derbyn brechlynnau rhag y frech goch ledled y byd, gan gynnwys yng Nghymru a'r DU.

Mae'r frech goch yn glefyd firol heintus iawn, sy'n gallu achosi symptomau annymunol gan olygu bod yn rhaid i chi fynd i'r ysbyty. Mewn rhai achosion prin, gall achosi marwolaeth. Mae'r firws sy'n achosi'r frech goch yn cael ei ledaenu trwy besychu, tisian a chyswllt personol agos.

Yn y DU a llawer o wledydd eraill, mae brechlyn rhag y frech goch yn cael ei gyfuno fel arfer fel â'r brechlyn rhag clwy'r pennau a rwbel (MMR). Er mwyn amddiffyn yn ddigonol rhag y frech goch, argymhellir dau ddos o'r brechlyn MMR. Mae'r brechlynnau hyn yn cael eu trefnu'n rheolaidd ar gyfer plant 1 mlwydd oed a phlant 3 blwydd a 4 mis oed.



Mae gan Sefydliad Iechyd y Byd a Llywodraethau'r DU a Chymru darged i **95% o blant dderbyn dau ddos o frechlyn rhag y frech goch** (megis MMR). Mae'r lefel hon yn cael ei hystyried i fod yn ddigon i rwystro lledaeniad firws y frech goch pan gaiff ei gyflwyno i mewn i gymuned, ac i amddiffyn y rhai na allant gael eu brechu drwy'r hyn a elwir yn 'imiwnedd yr haid'.



## Y niferoedd sy'n derbyn y brechlyn

Mae'r ffigurau chwarterol diweddaraf ([lonawr–Mawrth 2017](#)) Yn dangos bod Cymru ar y blaen i Loegr a chyfartaledd y DU o ran y nifer sy'n derbyn brechlyn MMR. Fodd bynnag, er bod y niferoedd sy'n derbyn un dos o'r brechlyn MMR erbyn iddynt fod yn 2 flwydd oed dros 95%, mae'r niferoedd a gaiff ddau ddos ohono erbyn iddynt fod yn 5 mlwydd oed yn dal yn is na'r targed.

	Erbyn 2 flwydd oed	Erbyn 5 mlwydd oed	
	MMR-1%	MMR-1%	MMR-2%
Y Deyrnas Unedig	91.7	95.4	88
<b>Cymru</b>	<b>95.1</b>	<b>97.3</b>	<b>90.4</b>
Lloegr	91.2	95.1	87.4
Yr Alban	94.4	97	92.5
Gogledd Iwerddon	94.7	97.5	93.4

Yn y 1990au hwyr a'r 2000au cynnar, niweidiwyd hyder y cyhoedd yn y brechlyn MMR o ganlyniad i bapur ymchwil a gyhoeddwyd ac y rhoddwyd sylw iddo yn y cyfryngau, a'r honiadau ynddo ei fod yn dangos cysylltiad rhwng y brechlyn MMR, awtistiaeth a chanser y coluddyn. Mae'r papur hwn bellach wedi ei danseilio a'i dynnu'n ôl yn ffurfiol, gydag ymchwil pellach yn profi **nad oes unrhyw dystiolaeth bod cysylltiad rhwng y brechlyn MMR ac awtistiaeth**. Mae hyder y cyhoedd wedi cynyddu'n dilyn hynny, ond mae pryderon yn parhau am y niferoedd rhwng 10–18 mlwydd oed sydd heb eu brechu, a allai fod wedi colli eu brechlynnau arferol yn y blynyddoedd yn dilyn y pryder am MMR. Mae'r [data chwarterol diweddaraf ar gyfer Cymru](#) yn dangos bod y canrannau o bobl yn eu harddegau a oedd yn troi'n 16 mlwydd oed rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017 a oedd wedi derbyn y dos 1<sup>af</sup> a'r 2<sup>il</sup> ddos o'r brechlyn MMR yn 92.7% a 87.2% – canran sylweddol is nag ymhlith y plant 5 mlwydd oed a ddangosir uchod.



Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r niferoedd sy'n derbyn un dos o MMR erbyn iddynt fod yn 2 flwydd oed wedi aros yn weddol gyson, sef tua 95%, yn dilyn y gostyngiad yn y 1990au hwyr a'r 2000au cynnar ac mae tuedd iddo godi o ganol y 2000au i'r 2000au hwyr.

Mae'r niferoedd sy'n derbyn dau ddos erbyn iddynt fod yn 5 mlwydd oed wedi codi flwyddyn ar ôl blwyddyn o 2006 ymlaen, ond mae wedi bod yn gostwng yn raddol ers cyrraedd uchafbwynt o 93.1% yn 2014/15. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi [mynegi pryder](#) o ran y duedd hon o ostwng, gan nodi ei fod yn cynyddu'r risg o achosion o'r frech goch.

### [Mae lefelau'r niferoedd sy'n cael y brechlyn yn amrywio rhwng](#)

[Awdurdodau Lleol](#): mae'r lefelau ar eu hisaf yng nghanolbarth a gorllewin Cymru (e.e. Sir Benfro) ac yn y de-ddwyrain (e.e. Casnewydd).

Archwiliwyd y berthynas rhwng amddifadedd a'r niferoedd sy'n cael y brechlyn mewn [adroddiad blynyddol](#) diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Drwy gymharu canran y plant a oedd wedi cael eu brechlynnau arferol erbyn iddynt fod yn 4 mlwydd oed (y brechlyn 4 mewn 1 cyn-ysgol, y blechlyn Hib/MenC, a'r ail ddos MMR) gyda'r lefel gymharol o amddifadedd y mae'r plant yn byw ynddo, canfuwyd bod bwlch anghydraddoldeb o 6.0% rhwng plant pedair mlwydd oed sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig (niferoedd o 81.0% a 87.0%, yn y drefn honno).

Mae'r ffigur hwn o 6% yn llai na'r bylchau o 2015/16 a 2014/15, ond yn dal yn fwy na'r bwlch o 5% a nodwyd yn 2013/14. Nid oedd y lleihad hyn yn y bwlch yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn deillio o gynnydd yn y nifer a oedd yn derbyn y brechlyn yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn hytrach, roedd yn deillio o ostyngiad mwy yn y niferoedd a oedd yn derbyn y brechlyn yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

### **Achosion diweddar**

Er bod cyflwyno'r brechlyn MMR wedi gostwng nifer yr o achosion o'r Frech goch yn sylweddol, yn y DU a thramor, bu nifer o achosion yng Nghymru, y DU ac Ewrop ar sawl adeg yn y blynyddoedd diwethaf.

Yn ystod 2012/2013 yng Nghymru, nodwyd 1,202 o achosion yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymru, gan arwain at orfod anfon 88 o bobl i'r ysbyty ac at 1 farwolaeth (er mwyn cymharu, yn ystod 2011 i gyd, roedd llai na 20 o achosion o'r frech goch



wedi'u cadarnhau yng Nghymru). Rhoddwyd dros 77,000 o frechlynnau yn ystod cyfnod hwn, ac roedd dros 21,000 ohonynt i bobl a oedd rhwng 10 a 18 mlwydd oed. Cyhoeddwyd adroddiadau ar yr achosion gan yr **asiantaethau a ymatebodd iddynt** (Byrddau Iechyd Abertawe Bro Morgannwg, Powys ac Hywel Dda a Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn ogystal â gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y pedwerydd Cynulliad, a gynhaliodd **ymchwiliad byr i'r achosion o'r frech goch**. Roedd yr adroddiadau hyn yn dod i'r casgliad bod yr ymateb amlasiantaethol i'r achosion wedi bod yn effeithiol, ond hefyd yn pwysleisio'r angen i osgoi hunanfodlonrwydd yn y cyfnodau tawel, gan nodi pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r angen am ddau ddos o'r brechlyn MMR er mwyn atal rhagor o enghreifftiau o nifer fawr o achosion. Nododd y Pwyllgor hefyd bwysigrwydd annog staff rheng flaen i gael brechlynnau, a hynny er mwyn sicrhau diogelwch y staff eu hunain a diogelwch eu cleifion.

Ym mis Mawrth eleni, **nodwyd achosion ledled Ewrop**, yn enwedig yn yr Eidal a Rwmania. Erbyn 11 Gorffennaf, 2017 cafwyd **35 o farwolaethau** oherwydd y frech goch yn Ewrop yn y cyfnod ers Mehefin 2016. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain (31) yn Rwmania, ond mae marwolaethau hefyd wedi bod yn yr Eidal, yr Almaen, a Phortiwgal.

Yng Nghymru, mae nifer o achosion o'r frech goch yn ardaloedd Casnewydd a Thorfaen wedi'u cadarnhau: **ym mis Mehefin cafodd mwy na 600 o blant eu brechu** ar ôl i 5 o bobl gyda chysylltiadau ag Ysgol Uwchradd Lliswerry gael diagnosis o'r frech goch; ym mis Gorffennaf cafodd 5 achos arall eu cadarnhau yn **ardaloedd Casnewydd a Thorfaen**. Adroddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru bod rhaglen dreigl o sesiynau brechu wedi cael ei chwblhau yn yr ysgolion yng Nghasnewydd fel ymateb, gyda chyfanswm o 1,089 o blant yn cael eu himiwneiddio.

Mewn ymateb i'r achosion hyn, mae swyddogion Iechyd y cyhoedd a'r llywodraeth wedi annog rhieni dro ar ôl tro i sicrhau bod eu plant wedi cael dau ddos o MMR, yn enwedig os ydynt yn bwriadu **teithio i fannau eraill yn Ewrop** neu i ddigwyddiadau mawr fel **gwyliau cerddoriaeth**. Mae'r cyngor a roddir i'r cyhoedd hefyd yn pwysleisio nad yw hi byth yn rhy hwyr cael un neu ddau ddos o'r brechlyn MMR, a'i bod yn bwysig i ffonio ymlaen llaw os amheuir achos o'r frech goch cyn mynd at feddyg teulu neu adrannau damweiniau ac achosion brys.



Erthygl gan Peter Mulholland a [Philippa Watkins](#), Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Canrannau o blant sydd wedi derbyn 1 a 2 ddos o'r brechlyn MMR erbyn 2 a 5 mlwydd oed, mis Ionawr i fis Mawrth 2017. (Ffynhonnell: [Vaccination coverage report, UK \(rhaglen COVER\): mis Ionawr i fis Mawrth 2017](#), Tablau 2a a 3a).

